# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

[INSERT LOCATION]

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Mai 2024

Amser: 09.30 - 12.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13891

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Delyth Jewell AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Carolyn Thomas AS<br>Lee Waters AS |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg<br>Paul Kindred, Llywodraeth Cymru<br>Tom Smithson, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Haidee James (Ail Glerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Madelaine Phillips (Ymchwilydd)<br>Delyth Wiliams (Swyddog) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Laura Anne Jones AS, sef Aelod newydd o’r Pwyllgor. Croesawodd y Cadeirydd y ddau Aelod newydd, sef Laura Anne Jones AS, a Lee Waters AS.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i Tom Giffard AS a Hefin David AS am eu gwaith fel Aelodau o’r Pwyllgor ers 2021.

## 2 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru (8)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, a Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a’r Gymraeg.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ruth Meadows, Cyfarwyddwr Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu nodyn gydag unrhyw gwestiynau na chawsant eu cyrraedd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 3 Papur(au) i’w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru i ofyn am wybodaeth ac eglurder ynghylch materion yn ymwneud â dosbarthu cyllid gan y Cyngor Llyfrau ar gyfer cylchgronau.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am wybodaeth ynghylch effaith y toriadau ariannol ar Opera Cenedlaethol Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd:  Cyflwyno canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion (2)

5.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar ganfyddiadau gwaith ymgysylltu â dinasyddion, a oedd wedi’i aildrefnu ers ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2024.

## 6 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Trafod y dystiolaeth

6.1 Yn ogystal ag ysgrifennu gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei barn ar ail-ymuno ag Ewrop Greadigol ac unrhyw raglenni perthnasol eraill yr Undeb Ewropeaidd.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Arts Infopoint UK a’r Pwyllgor ar Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a’r Cyfryngau yn Nhŷ’r Oireachtas i wahodd tystiolaeth ysgrifenedig mewn cysylltiad â’i ymchwiliad.

## 7 Adroddiad monitro cysylltiadau rhyngwladol

7.1 Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Monitro Cysylltiadau Rhyngwladol.

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Ystyried gohebiaeth ddrafft mewn ymateb i'r llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a oedd yn gwahodd sylwadau i lywio gwaith craffu yn y dyfodol

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ddrafft a chytuno arni fel y'i drafftiwyd.

## 9 Y diwydiant gemau fideo: Trafodaeth yn dilyn digwyddiad preifat i randdeiliaid ar 2 Mai 2024

9.1 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried nodyn ysgrifenedig ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, a phapur ar y camau nesaf posibl mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 10 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer haf 2024 (3)

10.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cynnig o ran ymchwiliad i godi tâl am arddangosfeydd a'r Cylch Gorchwyl drafft, a chytunodd arnynt.

10.2 Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar y flaenraglen waith ddrafft ar gyfer gweddill tymor yr haf 2024.